



Urdd

Urdd Gobaith Cymru yn cyhoeddi camau mawr oherwydd Coronafeirws

Oherwydd y sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran Coronafeirws, mae Urdd Gobaith Cymru yn cymryd y camau canlynol er mwyn iechyd a lles aelodau, staff a gwirfoddolwyr.

Bydd yr Urdd yn:

- Cau ei dri gweryll (Llangrannog, Caerdydd a Glan-llyn) i holl weithgareddau preswyl o ddydd Gwener 20 Mawrth 2020 nes bydd rhybudd pellach
- Canslo holl Eisteddfodau lleol a rhanbarthol
- Gohirio Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych tan 2021
- Canslo pob cystadleuaeth chwaraeon cenedlaethol
- Canslo pob gweithgaredd cymunedol nes bydd rhybudd pellach

Bydd Eisteddfod yr Urdd nawr yn cael ei chynnal yn Sir Ddinbych ym mis Mai 2021 ac mae'r Urdd yn trafod yn barhaus gyda'i bartneriaid darlledu, S4C a BBC Radio Cymru, o ran opsiynau i ddathlu doniau'r aelodau ar blatfform gwahanol yn 2020.

Mae canslo digwyddiadau mawr a chau'r gwerylloedd yn naturiol yn cyflwyno heriau ariannol sylweddol i'r Urdd ac mae amcangyfrif cychwynnol yn awgrymu bydd ergyd ariannol o bron i £4 miliwn yn dilyn cyhoeddiadau heddiw.

Mae'r Urdd yn trafod gyda'i holl bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yr effaith sylweddol y bydd y sefyllfa bresennol yn ei chael ar yr mudiad, ei weithlu o 320 ac ar bobl ifanc a phlant Cymru.

Dywedodd Prif Weithredwr yr Urdd, Siân Lewis: "Mae'n siom enbyd i ni i gyd orfod cau ein gwerylloedd a chanslo ein digwyddiadau, ond mae diogelwch a lles ein staff, ein aelodau a'n cefnogwyr yn flaenoriaeth llwyr. Ein bwriad nawr yw mynd ati i ddiogelu'r mudiad trwy gynllunio dyfodol cynaliadwy a defnyddio ein egni, ein ymrwymiad a'n gwerthoedd i helpu Cymru i ymdopi â'r argyfwng hwn.

"Bydd y mudiad, a ffurfiwyd bron i ganrif yn ôl ar egwyddorion o ymrwymiad cadarn i Gymru a chyd-ddyn, yn trafod y sefyllfa bresennol gyda Gweinidogion y Llywodraeth a hefyd yn edrych ar sut y gellid defnyddio'r Urdd a'i staff i ymateb i'r heriau cynyddol sy'n wynebu'r henoed a'r bregus yng Nghymru yn nghysgod y feirws hwn."

Mae'r Urdd mewn cysylltiad uniongyrchol â'i holl randdeiliaid ynglŷn â'r sefyllfa a byddwn yn diweddarau'n syth a mor rheolaidd a phosib os oes unrhyw ddatblygiadau pellach.

Os oes gennych ymholiad penodol dyma'r manylion cyswllt:

eisteddfod@urdd.org

chwaraeon@urdd.org

llangrannog@urdd.org

glan-llyn@urdd.org

caerdydd@urdd.org

Neu am ymholiad cyffredinol cysylltwch a helo@urdd.org